# Cyngor Cymuned Glantwymyn

## Nôs Iau, 28ain Mai 2015.

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, S.G.Owen, W.N.Owen, H.M.Williams, Mrs Gwenfair Davies.
**Ymddiheuriadau. Mri :-** G.Wigley, Mrs Ann Williams a'r Cyng. G.P.Fychan.

**101. Cofnodion cyfarfod 30ain Ebrill 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**102. Materion yn codi o'r cofnodion.**
94. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gaed yn Y Penrhos, Cemaes wedi i Gareth Owen, Dafydd Evans, Aled Griffiths a'r clerc gyfarfod â'r perchenogion i drafod dyfodol y toiledau yng Nghemaes. Roeddent yn barod i'r cyhoedd ddefnyddio toiledau'r Penrhos a chau'r cyfleusterau presennol. Byddent yn fodlon pe bai dymchwel yr adeilad presennol i gael mwy o le parcio a symud y safle fysiau i gael gwell mynedfa i'r briffordd o faes parcio'r Penrhos.
Pasiwyd rhoi gwybodaeth i'r Cyngor Sir nad yw'r Cyngor Cymuned yn barod i gymryd y cyfrifoldeb o redeg y toiledau.
98. Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth swyddogion y mynwentydd am y cyfraniad o £200 yr un.
100.8. Mae PCSO Tess Williaams wedi derbyn y gwahoddiad i ddod i gyfarfod mis Mehefin.
101.1 Dim gwybodaeth bellach ynglŷn â *defibrilator.* Gwahodd cynrychiolydd o'r cwmni sy'n datblygu'r peiriant i gyfarfod o'r Cyngor i dderbyn mwy o wybodaeth am ariannu'r prosiect.
101.2 Erbyn hyn deallir mai yng Ngorffennaf 2016 y bwriedir cynnal yr Ŵyl yng Nglantwymyn.
101.4 Mae Mr Chris Lloyd yn bwriadu rhoi arwydd wrth bont y Rheilffordd yng Nghomins Coch i geisio atal trafnidiaeth HGV dros y Waun, Cemaes. Gan mai o Gemaes mae'r drafnidiaeth yn mynd at y Fferm Wynt, yna bydd rhaid gadael y ffordd honno ar agor i drafnidiaeth HGV. Os bydd y broblem yn parhau yna bydd rhaid ystyried arwydd ger Gwernbwlch yn ogystal. Awgrym yr aelodau oedd bod arwydd yn cael ei godi ar fynedfa i'r tair ffordd am i yrwyr HGV anwybyddu cyfeiriadau *Sat-Nav*.
101.5 Yn dilyn dyrchafiad Adrian Jervis, Mr Bryan Davies fydd yn delio efo materion y ffyrdd yn yr ardal yma.

**Cyfarfod Blynyddol y Cyngor**

**1** Ethol Swyddogion am 2015/2016

| | |
|---|---|
| 1.1 Cadeirydd. | Mrs Gwenfair Davies |

Cymerwyd y gadair gan Gwenfair a diolchodd i Gareth am ei wasanaeth.

| | |
|---|---|
| 1.2 Is-gadeirydd | Mr Dafydd Evans |
| 1.3 Clerc | Mr Stephen Tudor |

Wedi 16 mlynedd wrth y gwaith roedd y clerc yn datgan ei fwriad i ymddeol ar ddiwedd mis Medi. Derbyniwyd ei gais a threfnir fod hysbysiad am y swydd ym Mlewyn Glas mis Mehefin.
**2** Arwyddwyd y llyfr Derbyn Swydd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
**3.** Cynrychiolwyr ar wahanol fudiadau a chymdeithasau.

| | |
|---|---|
| 3.1 Ecodyfi | Mrs Gwen Lloyd . |
| 3.2 Heddlu Dyfed/Powys | Mr Bill Owen |
| 3.3Panel Ysbyty Machynlleth | Mr Bill Owen a Mrs Gwenfair Davies |
| 3.4 Llywodraethwr Ysgol Glantwymyn | Mr Aled Griffiths a Gwenfair Davies |
| 3.5 Un Llais i Gymru | Mr Aled Griffiths a Mr Siôn Ifans. |
| 3.6 Pwyllgor y Ganolfan, Glantwymyn. | Mr Hugh Jones a Mr Paul Hughes |
| 3.7 Partneriaeth Biosffer. | Mr Aled Griffiths. |
| 3.8 SARPA. | Mr Hugh Jones. |

**4.** Aelodau i arwyddo sieciau. Hugh Jones, Ann Williams, Bill Owen a'r clerc. 3 i arwyddo.
**5**. Cyflog y clerc am 2015/2016 i barhau yn £750 am bob tri mis. .
**6.** Costau'r clerc am 2015/2016 i barhau fel a ganlyn:-
Ffotocopïo 10c yr un. Y clerc yn prynu'r papur.
Stampiau dosbarth cyntaf 62c, ac ail ddosbarth 53c. Y Cyngor yn prynu'r amlenni.
10c am bob galwad ffôn.

**7.** Roedd presenoldeb y cynghorwyr am y flwyddyn 2014/2015 yn foddhaol. Gareth yn unig oedd wedi mynychu pob cyfarfod gyda Gwenfair, Aled ac Ann wedi colli un a Hugh, Derryck a William wedi colli dau gyfarfod.
**8.** Trafodwyd tâl lle bedd a thâl i godi cerrig bedd yn y mynwentydd. Y taliadau i barhau fel a ganlyn.
Lle bedd i drigolion yr ardal £100 a £200 i rai oddiallan i'r ardal. Am godi carreg fedd £50.
**9.** Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd am y flwyddyn 2015/2016 yn y Ganolfan ar y nos Iau olaf ym mhob mis ac eithrio Awst a Rhagfyr.
Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

## Diwedd y Cyfarfod Blynyddol.

**10. Cynllunio.**
**P/2015/0368.** Cais i godi melin wynt ar dir Aberffrydlan. Wedi ystyried llythyr o wrthwynebiad i'r cais, cytunodd y cynrychiolwyr eu bod yn gefnogol cyn belled â bod y cais o fewn canllawiau'r Cyngor Sir.
**P/2015/0458.** Er gwybodaeth. Cais i godi melin wynt ar dir Maesmedrisial, Llanbrynmair.

**11. Eitemau i'w talu.**
11.1 Cyfraniad i'r archwiliwr mewnol, Mr Andy Shuter. Potel o win £33.99.

**12. Cais am arian.** Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**13. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**.
13.1 Bydd Mrs Lisa Edwards yn cychwyn fel athrawes yng Nglantwymyn ym mis Medi.
13.2 Mae Network Rail yn bwriadu gwario llawer yng ngorsaf Machynlleth i wella'r safon ar gyfer yr anabl.
http://www.powys.gov.uk/en/corporate/find-out-about-consultations-in-powys/public-transport-consultation/

**14. Gohebiaeth.**
14.1 Cynhelir Pwyllgor Adran Maldwyn yng Nghastell Caereinion ar y 19$^{eg}$ Mehefin.
14.2 Cyfle olaf am le ar gwrs hyfforddiant i'w gynnal yn y Plas, Machynlleth dydd Mawrth nesaf.
14.3 Mae Cyngor Sir Powys wedi cychwyn trafodaeth ar y we ynglŷn â dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus o fis Tachwedd ymlaen.

**15. Unrhyw fater arall.**
15.1 Llythyr o ddiolch i Gwilym Fychan a'r teulu am eu gwasanaeth o gario plant i'r ysgol ers 1972.
15.2 Llythyr o ddiolch i Lil Humphreys am gyflawni 40 mlynedd o wasanaeth yn Swyddfa'r Post yng Nglantwymyn.
15.3**.** Twll yn y ffordd yng nghanol pentref Llanwrin.
15.4. Angen llwybr troed ar ymyl y ffordd o ganol pentref Llanwrin at y Bwthyn Gwyn er diogelwch i blant a'r oedrannus sy'n defnyddio llawer ar y ffordd.
15.5. Angen gwella'r ffordd heibio Canol y Llan tuag at yr eglwys yn Llanwrin.
15.6. Y llwybr troed o Fronheulog i Gemaes yn cael ei ddefnyddio fel lle parcio sy'n beryglus i gerddwyr.
15.7. Mae wal y bont yng Nghemaes yn rhwystro cerbydau mawr rhag troi am bont Rhydygwiail.

Nid oedd mater arall
**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25$^{ain}$ Mehefin 2015.**

At the  Annual Meeting held in May, Mrs Gwenfair Davies, Pengwern was elected Chairman for the coming year and Mr Dafydd Evans, Dolau Brics as vice-chairman. Mr Stephen Tudor was re-elected Clerk. He agreed to continue in office but told the meeting that, after 16 years, he wished to retire at the end of September 2015.
Council rejected the offer from Powys County Council to take over the responsibility of the Public Conveniences at Cemaes. The proprietors of the Penrhos Arms Hotel in the village centre have very kindly offered the use of their toilet facilities to the public and the use of their car park facilities after the services have been suspended.
Signs have been requested to deter drivers of HGVehicles from following Sat-Nav instructions along narrow roads in the locality, especially over the Waun, Cemaes.
A planning application to erect a wind turbine on Aberffrydlan land was thoroughly discussed, and was supported as long as the application is within the guide lines provided by Powys Planning Authority.
Letters of appreciation were sent to Councillor Gwilym Fychan and family for the service provided in transporting children to and from Glantwymyn School since 1972, and to Mrs Lil Humphreys for serving 40 years at Glantwymyn Post Office and continuing to do so. The service given to the community by people like Gwilym and Lil can never be calculated.
Pedestrians between Fronheulog and the village of Cemaes sometimes have to walk on the busy A470 because of vehicles parking on the footpath provided.